



## Gwenyn Mêl Arwrol

Mae'r gweithwyr **gormes** (gwenyn gwrywaidd), **y frenhines**, a'r **gweithwyr** (gwenyn benywaidd) yn byw mewn nythfa mewn cwch gwenyn neu goeden. Tu fewn i gwch gwenyn mae yna 'fframiau' pren gyda cwyr ynddyn nhw. Mae'r gwenyn yn gwneud celloedd chwech ochrog sydd yn ffurfio crwybrau a dyma lle maernt yn storio eu mêl a cadw'r ifanc yn ddiogel a chynnes.

### Cylch Bywyd y Wenynen Fêl

Mae gan wenyn cylch bywyd gyda pedair cam – wŷ – larfa – chwiler – oedolyn. Mae'n cymeryd 21 diwrnod i wenynen weithgar ddod i'r amlwg fel oedolyn.

**Diwrnod 1** – Mae'r frenhines yn dodwy wŷ yn un o gelloedd y crwybrau.

**Diwrnod 4** – Mae'r wŷ yn deor i fewn i larfa bychain iawn. Mae'r larfa yn cael ei bwydo ar gymysgedd o baill a neithdar.

**Diwrnod 9** - Mae'r cell yn cael ei selio gyda cwyr a trawsnewid i chwiler, gan ddod yn fwy debyg i wenynen bob dydd.

**Diwrnod 21** – Mae'r gwenynen weithgar newydd yn ymddangos allan o'r cell.

## Gwenyn Prysur

Mae bywyd yn y cwch yn brysur iawn- mae llawer i'w wneud i sicrhau fod y gwenyn yn gryf ac yn ffynnu.

Dyma rhai o'r tasgau sydd angen i'r gweithwyr ei wneud:

**Wythnos Gyntaf:** Mae gwenynen weithgar newydd yn glanhau a gloywi celloedd yn barod i'r frenhines ddodwy wyau ynddyn. Wedyn bydd rhaid iddi weithio fel nyrs yn gwneud bwyd a bwydo y larfâu.

**Ail a trydedd wythnos:** Mae'r gwenyn gweithgar yn cynhyrchu naddion o gwyr yn rhan isaf ei cyrff ac mae hwn yn cael ei ddefnyddio i adeiladu crwybrau newydd. Gall gwenynen weithgar hefyd gludo paill neu ddŵr neu hyd yn oed gau tyllau drafftio gyda glud gwenyn a elwir yn propolis. Mae cadw tymheredd y cwch yn gyson a gwarchod rhag dresmaswyr yn ddyletswyddau eraill y gwenyn yma.

**3-6 wythnos oed:** mae'r gwenyn gweithgar yn dechrau gadael y cwch i gasglu neithder a paill ar gyfer bwyd, dyma yw "porthiant". Mae rhai gwenyn yn casglu dŵr neu propolis. Ond gyntaf rhaid iddynt wneud sawl ehediad byr fel eu bod yn gallu cofio lleoliad eu cartref. Mae gwenynen yn dawnsio yn y cwch er mwyn dweud wrth y gwenyn eraill lle mae'r bwyd gorau. Ar ôl tua tair wythnos o borthi mae'r gwenynen weithgar yn marw gyda gwenyn ifanc yn barod i gymeryd ei lle.



Gwenynen Ormes



Gwenynen Weithgar



Y Famwenynen



## Y Gwenynwr

Mae gwenynwyr yn edrych ar ôl gwenyn mewn cychod, gan roi cartref diogel a sych a sicrhau eu bod yn iach a bod ganddynt ddigon o fwyd. Mae hyn yn golygu fod y gwenynwr weithiau yn gallu cymeryd mêl sydd yn weddill a'i roi mewn jariau i'w fwyta neu werthu.

## Pam mae Gwenyn yn Bwysig?

Mae gwenynen fêl yn fach iawn ond yn bwysig iawn. Mae hi yn peillio planhigion a choed gyda paill sydd yn cael ei symud o un planhigyn i'r nesaf ar ei chorff blewog fel bod ni yn gallu cael ffrwythau a hadau. Heb wenyn byddai llai o blanhigion yn gallu tyfu a ni fuasem gyda digon o amrywiaeth yn ein bwyd i gadw pawb yn iach.

Mae gwenyn hefyd yn gwneud mêl i ni fwyta a defnyddio mewn meddyginiaeth. Mae cwyr gwenyn yn cael ei ddefnyddio i wneud canhwylau, cynnyrch harddwch a pholish dodrefn.

Tyfych blanhigion gwenyn gyfeillgar – mae gwenyn yn hoffi amrywiaeth eang o flodau a choed yn ogystal a ffrwythau a llysiau.

Dangoswch y daflen *Planhigion Blodeuol ar Gyfer Gwenyn* i'ch rhieni neu warchodiaid ac hefyd i'ch athro. Mae hyd yn oed blodau mewn bocs o flaen y ffenestr yn gallu helpu gwenyn.